**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd
Cymru, a'r Trefnydd

23 Ionawr 2024

Ymchwiliad y Pwyllgor: Cyswllt Ffermio

Annwyl Lesley,

Y llynedd cytunodd y Pwyllgor y byddai ei raglen waith ar gyfer y gwanwyn yn cynnwys edrych ar Gyswllt Ffermio a sut y bydd yn cefnogi'r gwaith o roi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith. Ar ôl gwahodd swyddogion Cyswllt Ffermio i roi tystiolaeth lafar, mae'n ymddangos bod y broses dendro ar gyfer y contract newydd, a'r ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn ffactorau yn amseriad y gwaith hwn.

Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu bwrw ymlaen i geisio barn amrywiaeth o randdeiliaid ffermio ac amgylcheddol ar Gyswllt Ffermio yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror, a bydd yn ceisio tystiolaeth ysgrifenedig i ddechrau gan y rhai sy'n cyflawni'r contract presennol, gyda thystiolaeth lafar gan y deiliad (neu ddeiliaid) contract newydd yn ddiweddarach. I lywio ein gwaith byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech gadarnhau'r hyn a ganlyn:

- Yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer y broses dendro (i helpu'r Pwyllgor i wybod beth yw'r ffordd orau o gyfrannu safbwyntiau i'r broses o gytuno ar gylch gorchwyl a chylch gwaith ar gyfer y rhai sy'n cyflawni'r contract newydd);
- pryd y bydd y contractwr/contractwyr newydd yn y rôl (i helpu'r Pwyllgor i wybod pryd y gallai ofyn iddynt ddod i mewn i drafod eu cynlluniau);
- cynlluniau ar gyfer pontio rhwng y contractau Cyswllt Ffermio presennol ac yn y dyfodol er mwyn sicrhau proses bontio a throsglwyddo ddidrafferth;

- manylion cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y contract newydd – e.e. pa raglenni/gwasanaethau fydd yn cael eu blaenoriaethu a pha adnoddau sydd ar gael; a
- sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gyswllt Ffermio helpu i weithredu elfennau eang y Cynllun Ffermio Cynalisadwy arfaethedig (tra’n cydnabod bod y Cynllun yn dal i fod yn destun ymgynghoriad).

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai’r Pwyllgor gael ymateb mewn pryd i lywio'r sesiynau sydd wedi'u cynllunio gyda rhanddeiliaid, h.y. erbyn diwedd y dydd ddydd Llun 5 Chwefror.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg